



# Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Ellen Ap Gwyn – Arweinydd: Cyngor Sir Ceredigion  
Y Cynghorydd Rosemarie Harris – Arweinydd: Cyngor Sir Powys

Y Cynghorydd Myfanwy Alexander – Aelod Portffolio'r Cabinet: Addysg a'r Gymraeg (Cyngor Sir Powys)

Y Cynghorydd Martin Weale – Aelod Portffolio'r Cabinet: Adfywio a Chynllunio (Cyngor Sir Powys)

Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion

Ann Watkin – Llywodraeth Cymru

Caroline Turner – Prif Weithredwr: Cyngor Sir Powys

Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion

Claire Miles – Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) Canolbarth Cymru

Y Cynghorydd Dafydd Edwards – Aelod Portffolio'r Cabinet: Prifffyrdd a'r Amgylchedd gan gynnwys Tai (Ceredigion)

Eifion Evans – Prif Weithredwr: Cyngor Sir Ceredigion

Hayley Thomas - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Helen Jones – Croeso Cymru – Llywodraeth Cymru (ar ran Rob Holt)

Hywel Davies – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (ar ran Jane Davidson)

Jane Lewis – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-Orllewin a Chanolbarth Cymru

Joe Mault – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

Julian Atkins – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Lowri Gwilym – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mark Dacey – Grwp Colegau Castell-nedd Port Talbot

Matt Marshall – Coleg Ceredigion

Nigel Brinn – Cyfarwyddwr: Cyngor Sir Powys

Nia Williams – Cydbwyllgor Canolbarth Cymru

Paul Evans – Stadau Bronllys

Peter Davies – Undeb Amaethwyr Cymru

Rhian Hayward – Campws Arloesi a Menter Aberystwyth

Y Cynghorydd Rhodri Evans – Aelod Portffolio'r Cabinet: Economi ac Adfywio (Ceredigion)

Rowland Rees-Evans – Twristiaeth Canolbarth Cymru

Susan Yapp – Llywodraeth Cymru (yn lle Helen Minnie-Smith)

Vanessa Naughton – Llywodraeth Cymru

Ben Rawlence – Coleg y Mynyddoedd Du – yn bresennol ar gyfer eitem 3

**Apologies:** Y Cynghorydd Phyl Davies - Aelod Portffolio'r Cabinet: Prifffyrdd, Cludiant ac Ailgylchu (Cyngor Sir Powys)

Arwyn Watkins – Hyfforddiant Cambrian

Gwilym Davies – Cyngor Sir Powys

Helen Minnice-Smith – Llywodraeth Cymru

Jane Davidson – Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (mynychodd cynrychiolydd)

Jenni Thomas – Cyngor Sir Powys

Nina Davies – Cyngor Sir Powys

Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Cydbwyllgor Canolbarth Cymru

Rhodri Griffiths – Llywodraeth Cymru

Rob Halford – Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru  
 Rob Holt – Llywodraeth Cymru (mynychodd cynrychiolydd)  
 Steve Hughson – Prif Weithredwr: Sioe Frenhinol Cymru

Cofnod o gyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ddydd Gwener 12<sup>fed</sup> Gorffennaf 2019 yn Siambr y Cyngor, Neuadd Sir Powys, Llandrindod.

		Gweithredu
1.	<p><b>COFNODION CYFARFOD BLAENOROL – 12<sup>FED</sup> EBRILL 2019</b></p> <p>Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Gwener 12<sup>fed</sup> Ebrill 2019 fel cofnod cywir, yn amodol ar gynnwys Nigel Brinn - Cyfarwyddwyr: Cyngor Sir Powys; Caroline Turner - Prif Weithredwr: Cyngor Sir Powys and Steve Hughson - Prif Weithredwr Sioe Frenhinol Cymru yn rhestr y rhai a oedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion i'w trafod/diweddarau.</p>	
2.	<p><b>Y FARGEN TWF – Y DIWEDDARAF AR Y CYNNYDD</b></p> <p>Yn ystod y trafod a'r diweddarau, cyfeiriwyd yn benodol at:</p> <p>a. <b>Llywodraethau'r DU a Chymru</b> - roedd trafodaeth barhaus wedi bod rhwng Arweinwyr y ddau Gabinet (Powys a Cheredigion) a chynrychiolwyr Llywodraethau'r DU a Chymru. Byddai'r ddwy Lywodraeth yn croesawu cynnydd rhag blaen gyda Bargen Twf Canolbarth Cymru ac roeddent wedi pwysleisio pwysigrwydd dangos eu bod wedi dysgu oddi wrth y tair Rhaglen Bargen Twf yng Nghymru a oedd ymhellach ar y blaen</p> <p>b. <b>Cydbwyllgor</b> - Cymeradwywyd y Cytundeb Rhyng-awdurdod ac roedd y Cydbwyllgor, sy'n cynnwys pump aelod yr un o'r ddau Gabinet (Ceredigion and Powys), wedi cynnal cyfarfod cysgodol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar fframwaith i weithredu a chynyddu cynllun i sbarduno'r Fargen Twf</p> <p>c. <b>Grwp Strategaeth Economaidd</b> – byddai'n bwysig cyfansoddi'r Grwp Strategaeth Economaidd a fyddai'n dod dan y Bartneriaeth. Byddai'r holl swyddi ar y GSE yn wirfoddol. Ardaloedd yr Awdurdodau Lleol fyddai'n cynnig y penodiadau i'r GSE. Byddai swydd y gadair yn gofyn am gymeradwyaeth y Gweinidog. Byddai rôl y Cadeirydd yn bwysig iawn</p> <p>d. <b>Grwp Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru</b> – Mae gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o hyd yn y dyfodol, wrth gynghori a goruchwyllo cyfeiriad strategaeth datblygiad economaidd rhanbarthol yng Nghanolbarth Cymru</p> <p>e. <b>Statws / Cynyddu Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo</b> – byddai'n bwysig cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwaith y Cyd-bwyllgor a'r Grwp Strategaeth Economaidd</p> <p>f. <b>Swyddfa'r Rhaglen</b> – nodwyd cyllid i gefnogi gwaith swyddfa'r rhaglen, yn enwedig yng ngoleuni cyfarwyddiadau Llywodraethau'r DU a Chymru i fynd ati rhag blaen (mae'n debygol mai swyddfa rithwir ym Mhowys/Ceredigion fyddai swyddfa'r prosiect)</p> <p>g. <b>Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (RLSP) Canolbarth Cymru</b> – mae gwaith ar y gweill mewn cysylltiad â Phrifysgol Aberystwyth i sefydlu RLSP Canolbarth Cymru. Mae Rhodri Llwyd Morgan wedi arwain y cais i Lywodraeth Cymru ac mae'r cyllid wedi'i gymeradwyo. Mae'r swyddogion wrthi'n aros am fanylion pellach</p>	
3.	<p><b>CAMPWS Y MYNYDDOEDD DU – DARPAR BROSIECT</b></p>	

	<p>Croesawodd y Cadeirydd Ben Rawlence i'r cyfarfod i roi'r diweddaraf ar brosiect Coleg y Mynyddoedd Du a chyflwyno crynodeb o'r Achos Busnes Amlinellol. Yn ystod y trafod a'r diweddarau, cyfeiriwyd yn benodol at:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Y Prosiect</b> – roedd y prosiect wedi ennill statws elusen gofrestredig. Mae dau weithiwr amser llawn a saith o Ymddiriedolwyr</li> <li><b>Profiad Dysgu</b> - byddai'r campws yn defnyddio'r Parc Cenedlaethol fel dosbarth ac yn darparu profiad dysgu newydd ar lefel Addysg Uwch/Addysg Bellach, galwedigaethol ac israddedig. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol i'r prosiect a chefnogaeth/diddordeb o faes eang iawn i'r syniad o fodel newydd o ddysgu Addysg Uwch. Byddai ffocws cryf ar 'lleol' yn achos pob gweithgarwch.</li> <li><b>Sgiliau nid Pynciau</b> - mae'r dull 'sgiliau nid pynciau' yn dod yn datblygu'n ddewis y mae cyflogwyr yn ei ffafrio. Mae addysgu a chyrsgiau amlddisgyblaeth o'r natur yma'n debygol o ddod yn fwy cyffredin gydag amser. Byddai'r campws yn flaenllaw yn y cyswllt hwnnw. Byddai arddull y dysgu'n cyd-fynd yn dda â Chwricwlwm Donaldson. Byddai'r campws yn ategu yn hytrach na'n disodli rhwydweithiau dysgu presennol. Roedd cysylltiadau da wedi bod gyda darparwyr AU/AB hyd yma ac mae cytundeb fframwaith yn cael ei ddatblygu gyda Grwp NPTC</li> <li><b>Cysylltiadau â Chyflogwyr</b> – byddai ffocws cryf ar gynorthwyo busnesau lleol i dyfu. Byddai gosod dysgwyr gyda chyflogwyr posibl i gynorthwyo'r busnesau hynny ar yr un pryd â datbygu sgiliau myfyrwyr yn bwysig. Mae rhai rhwystrau i gynlluniau lleoli/prentisiaethau oerhwyd dyr angen i fodloni gofynion ahredu mewn rhai ardaloedd. Mae'r gofyniad i ddysgwyr fod ar y gyflogres fod yn rhwystr i brentisiaeth fodd bynnag</li> <li><b>Nifer a dderbynir/Cyflogaeth Leol</b> – mae'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi armediad o fylchau sgiliau y byddia'r coleg yn helpu eu llenw trwy uwchsgilio a chadw pobl ifna yn ogystal â thrwy annog mewnfudiad lleol. Mae'r prosiect yn cynnig credu drso 50 o swyddi di weithwyr (hyd at 100 o bosibl) a phan fydd yn llawn, bydd y safle'n gallu darparu lle i 600 o ddysgwyr (rhagolygon y nifer a dderbynir /cynigion – 100 o fyfyrwyr o Loegr, 50 fyfyrwyr lleol o Bowys a 50 o fyfyrwyr rhyngwladol)</li> <li><b>Cyflwyniad</b> – byddai'r prosiect yn cael ei gyflwyno fesul cam hyd at 2024 pan fyddai'r safle'n weithredol. Pan fydd hynny'n digwydd, byddai'r £30m y flwyddyn yn cael ei ychwanegu at yr economi fel Gwerth Ychwanegol Gros.</li> <li><b>Hyfywedd</b> - Adroddodd Ben y byddai angen i'r cyrsiau AB fod â 4 dysgwr er mwyn bod yn hyfyw. Heriwyd hyn yn sgil barn Swyddfa Archwilio Cymru y byddai angen 9 o ddysgwyr i gynnal cyrsiau dysgu (12 dysgwyr os oedd y cyrsiau'n rhai cyfrwng Cymraeg). Nododd Mark Darcey o NPTC bod y ffigyrau hynny'n cyfeirio at addysg uwchradd a bod dysgu'r gymuned oedolion bob amser wedi gweithredu gyda ffigyrau is, a chadarnhaodd ddiddordeb NPTC mewn cydweithio â Choleg y Mynyddoedd Du ar ein rhaglen gymunedol ac AB. Cododd y drafodaeth a ddilynodd nifer o bryderon ynghylch y cynnig. Problemau parhau o ran cyllido Addysg Uwch a maint y buddsoddiad i sefydlu sefydliad AU newydd oedd un o'r rhai mwyaf amlwg.</li> </ol> <p>Manteisiodd Hywel Davies ar y cyfle i roi gwybod i'r cyfarfodydd fod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi cadarnhau y byddent yn sicrhau dyfodol eu campws yn Llanbedr-pont-Steffan.</p> <p>Mynegodd Mark Dacey, Grwp NPTC ei gefnogaeth i'r prosiect, a dywedodd fod ganddo'r potensial i ddatrys rhai o'r problemau gyda chyflenwi sgiliau mewn gymuned wledig.</p>	
<p>4.</p>	<p><b>CYNLLUNIAU DATBLYGU ECONOMAIDD RHANBARTHOL</b></p>	

	<p>Rhannodd Ann Watkins, Llywodraeth Cymru, ddiweddariad mewn perthynas â Fframweithiau Cyflenwi Economaidd Rhanbarthol, ac ynddo gwnaeth gyfeiriad penodol at:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Fframweithiau Rhanbarthol</b> – Mae LIC wrthi'n datblygu 'Fframweithiau Datblygu Economaidd Rhanbarthol' dan Gynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd y llynedd. Byddai wedi yn fwriad bod y fframweithiau'n cwmpasu cyfnod hwy na bywyd un llywodraeth</li> <li><b>Ardaloedd Rhanbarthol</b> – at ddibenion gweinyddol, byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda model tri-rhanbarth. Fodd bynnag, byddai'r model yma'n ystyried sefyllfaoedd a chynlluniau rhanbarthol sy'n gweithredu/ a gynigiwyd. Byddai gan bob rhanbarth Brif Swyddog Rhanbarthol. Y gobaith yw y bydd gweledigaeth gyfun ar gyfer pob rhanbarth, wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â phob rhanddeiliad rhanbarthol, a fyddai'n nodi blaenoriaethau rhanbarthol a fyddai'n cyflenwi yn unol ag uchelgeisiau rhanbarthol. Byddai cydweithredu a chyd-ddylunio'n allweddol. Awgrymwyd y dylai'r ôl-troed rhanbarthol ddilyn ardaloedd y Fargen Twf a dod yn bedair ardal yn lle'n dair. Adroddodd Ann mai dim ond er mwyn ffitio â'r swyddogaethau gweinyddol yr oedd y rhanbarth wedi'i threfnu'n dair ardal.</li> <li><b>Uchelgais</b> – uchelgais Llywodraeth Cymru, trwy ei fframwaith economaidd rhanbarthol, fyddai hyrwyddo twf economaidd ar draws Cymru, yn hytrach na'r sefyllfa gyfredol lle ceir pocedi o dwf/gweithgareddau a chyfoeth mewn rhai ardaloedd ond nid mewn ardaloedd eraill</li> <li><b>Alinio</b> – byddai Llywodraeth Cymru yn alinio ei blaenoriaethau/gweithgareddau mewn dull cydlynus traws-lywodraeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau twf pob ardal. Byddai gwybodaeth leol yn pennu cyfeiriad Llywodraeth Cymru o ran ei gweithgareddau.</li> <li><b>Ymgysylltiad</b> - bu rhywfaint o ymgysylltu cychwynol gydag ardaloedd Awdurdodau Lleol er mwyn dechrau llunio fframweithiau. Fodd bynnag, byddai cyfnod o ymgysylltu gyda mwy o ffocws ac ymgysylltiad sylweddol yn digwydd yn ystod misoedd yr haf ac i mewn i gyfnod yr hydref.</li> </ol>	
<p>5.</p>	<p><b>CYNLLUNIAU CYFLOG A SGILIAU DE-ORLLEWIN A CHANOLBARTH CYMRU 2019/2020</b></p> <p>Jane Lewis – Cafodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y diweddariad ar Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau De-Orllewin a Chanolbarth Cymru ar gyfer 2019/2020. Yn ystod y drafodaeth a'r diweddariad, cyfeiriwyd yn benodol at:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b>Ymgysylltiad</b> - mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd busnesu i ymgysylltu trwy arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg yn ceisio ciplun o'r wybodaeth ynglŷn ag anghenion busnesau. Derbyniwyd 960 o ymatebion o bob rhan o Ranbarth y De-Orllewin a Chanolbarth Cymru</li> <li><b>Rhanbarth Canolbarth Cymru</b> – o'r 960 o ymatebion busnes, roedd 214 yn deillio o fusnesau sy'n seiliedig yng Nghanolbarth Cymru neu'n gweithio yma. Daeth 132 gan 'feicrofusnesau' a oedd yn cyflogi 10 neu lai o staff</li> <li><b>Prentisiaeth</b> – roedd 75% o fusnesau wedi ymateb i ddweud nad oeddent wedi gallu cefnogi cynlluniau prentisiaethau oherwydd na fyddent wedi gallu ariannu swyddi, neu doedden nhw ddim yn ymwybodol o sut i gael mynediad i'r cynlluniau. Cafwyd trafodaeth fer ar yr anawsterau a oedd yn gysylltiedig â gofynion achredu er mwyn caniatáu i dyfarniadau i gael eu gwneud wrth i'r cynlluniau gael eu cwblhau</li> <li><b>Blaenoriaethau</b> – y blaenoriaethau i fusnesau lleol oedd caniatáu i sefydliadau ddarparu dysgu a sgiliau sy'n briodol ar gyfer cyflogaeth ac i wella rhaglenni seiliedig ar waith er mwyn iddynt weithredu'n well.</li> <li><b>Cynllun 3 Blynedd</b> – mewn cyfarfod ar 17<sup>eg</sup> Gorffennaf, byddai rhagor o drafodaeth o ran y blaenoriaethau i'w cynnwys mewn cynllun tair-blynedd.</li> </ol>	

	Byddai'r cynllun tair-blynedd yn cael ei bennu mewn cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 24 <sup>ain</sup> Gorffennaf	
6.	<p><b>RHAGLEN FUDDSODDI WEDI'I THARGEDU AR ADFYWIO</b></p> <p>Cymeradwyodd y Bartneriaeth bapur diweddarau a gyflwynwyd i'r cyfarfod, yn cynnwys manylion prosiectau a oedd ar y gweill (gan gynnwys prosiectau sydd ar fin cael eu gweithredu). Mae tri phrosiect rhanbarthol ar fin cael eu cymeradwyo. Byddai'n bwysig sicrhau cymaint â phosibl o'r arian yn fuan ac i Lywodraeth Cymru gytuno ar gynlluniau, gan fod angen iddynt wario o fewn y flwyddyn.</p>	
7.	<p><b>ADRODDIAD YMGYSYLLTU RHANBARTHOL – CHWARTER 2</b></p> <p>Cymeradwyodd y Bartneriaeth bapur diweddarau a gyflwynwyd i'r rhanbarth. Yn ystod y drafodaeth a'r diweddariad, cafwyd cyfeiriad penodol at y canlynol:</p> <p>a. <b>Gweledigaeth Ranbarthol ar gyfer Twf</b> – roedd sesiynau gweithdy wedi'u cynnal er mwyn helpu i rannu'r weledigaeth ar gyfer twf rhanbarthol. Byddai manylion y materion perthnasol yn cael eu dsobarthu i aelodau'r bartneriaeth maes o law</p> <p>b. <b>Brexit Ein Tir</b> – Darparodd Lowri Gwilym, CLILC, adborth ar ddatblygiadau yn ymwneud â'r ymgynghoriad Brexit ac Ein tir dan arweiniad LIC. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael ffocws ar ffermio cynaliadwy a byddai pwyslais cryf ar amaethyddiaeth a rheoli tir cynaliadwy. Byddai gofyniad am ymweliadau â ffermydd unigoli asesu sefyllfaoedd/ceisiadau unigol. Byddai'r adnodd angenrheidiol yn sylweddol. Roedd cydweithio agos wedi bod rhwng CLILC ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru. Roedd pryderon ynghylch gorfod llunio penderfyniad y diwrnod cyn i'r Wlad fod yn ymwybodol o ganlyniad Brexit. Roedd Llywodraeth DU wedi ymrwmo i gefnogi amaethu hyd 2022 ar yr un lefel neu lefel debyg. Mae'n aneglur beth fyddai'r sefyllfa wedi hynny. Byddai'r lobio am gefnogaeth i amaethu'n parhau yn Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai'n bwysig cael ymateb gan y Bartneriaeth. Byddia'r mater yn eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf a dylid cyflwyno ymateb drafft cyn y cyfarfod hwnnw er mwyn cael sylwadau arno.</p>	Claire Miles
8.	<p><b>GWEITHGOR CYSYLLTEDD A SEILWAITH – CHWARTER 2</b></p> <p>Wedi adolygu adroddiad Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith Chwarter 2 2019/20 fel y'i cyflwynwyd i'r cyfarfod, cafwyd cyfeiriadau penodol at y canlynol:</p> <p>a. <b>Cyd-fforwm Trafnidiaeth y Gororau a Chanolbarth Cymru</b> - mae Gweinidog Cludiant Llywodraeth y DU a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi nodi bod cefnogaeth i sefydlu fforwm Gweinidogaethol trawsffiniol ar gyfer trafndiaeth.</p> <p>b. <b>Pwyllgor EIS Cynulliad Cenedlaethol Cymru</b> – Byddai TraCC yn ffurfio ymateb rhanbarthol i ymholiad cyfredol y pwyllgor i ddatgarboneiddio cludiant.</p>	
9.	<p><b>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</b></p> <p>Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 18<sup>fed</sup> Hydref 2019 yn Aberaeron.</p>	

**Y CYNGHORYDD ELLEN AP GWYNN - ARWEINYDD  
CYNGOR SIR CEREDIGION  
YN CADEIRIO**